# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Committee Room 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Ionawr 2021

Amser: 10.00 - 11.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11062

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Alyson Francis, Llywodraeth Cymru<br>Shane Williams, Llywodraeth Cymru<br>Jodie Woodward, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Briffio technegol ar y rheoliadau dyletswydd economaidd-gymdeithasol sydd ar ddod

Cafodd y Pwyllgor friffio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau dyletswydd economaidd-gymdeithasol sydd ar ddod.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)712 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)695 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(5)700 – Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(5)701 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 3) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.4 SL(5)716 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r EU) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.5 SL(5)714 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.6 SL(5)718 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.7 SL(5)719 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Nododd y Pwyllgor hefyd fod yr anghysondeb a amlygwyd yn y pwynt adrodd technegol wedi cael sylw yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2021 a wnaed ddydd Gwener 15 Ionawr 2021 ac a fydd yn cael ei ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.8 SL(5)720 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(5)691 - Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(5)692 - Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 5.3 SL(5)708 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 6.1 SL(5)704 - Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020

Trafododd y Pwyllgor y Cod Ymarfer ac ymateb y Llywodraeth a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau a nodwyd o dan Reol Sefydlog 21.7.

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 7.1 WS-30C(5)211 - Rheoliadau'r Fframwaith ar gyfer Llif Rhydd Data Nad Ydynt yn Ddata Personol (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2021

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau cysylltiedig, yn benodol bod anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad.

### 7.2 WS-30C(5)212 - Rheoliadau Cludo Gwastraff Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 7.3 WS-30C(5)213 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach - diweddariad

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a'r ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â’r Bil Masnach.

## 9 Papurau i'w nodi

### 9.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Addysg: Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Addysg mewn perthynas â’r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

### 9.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 11 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 - y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd.

## 12 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020

Trafododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol mewn perthynas â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) a chafodd bapur briffio ar y Ddeddf.